

SWYDDOG YMGYSYLLTU A PHOLISI

DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB PERSON

Atebol i: Cyfarwyddwr y Rhaglen

Lleoliad: Caerdydd

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu polisi gweithio hyblyg sy'n galluogi pobl i weithio o swyddfa ac o gartref yng Nghymru. Bydd gofyn i chi fynychu swyddfa Caerdydd yn rheolaidd. Bydd gofyn i chi hefyd ymweld â lleoliadau eraill fel rhan o'ch cyflogaeth.

Math o gontract: Parhaol

Oriau: 35 awr yr wythnos

Nodiadau:

- Oriau gwaith yn ystod yr wythnos i'w cytuno ond yn gyffredinol dylai fod o fewn oriau gwaith 8am-6pm.
- Mae'r rôl yn gofyn am hyblygrwydd mewn oriau ac arhosiad dros nos achlysurol

Cyflog: £38,206 y flwyddyn yn seiliedig ar amser llawn

Budd-daliadau yn cynnwys: cyfraniad pensiwn cyflogwr o 5%, lwfans gwyliau hael, yswiriant bywyd grŵp, diwylliant moesegol, parcio ceir am ddim a'r opsiwn i weithio gartref rhai dyddiau

Bydd deiliad y swydd yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Rhaglen; ond gan ein bod yn dîm o 7, rydym yn gweithio fel tîm agos heb ormod o ffocws ar strwythurau a hierarchaeth anhyblyg. Rydym am i chi deimlo'n hyderus i wneud penderfyniadau mewn meysydd o'ch cyfrifoldeb ac i gyfrannu at gyfeiriad a llwyddiant TPAS Cymru a'i aelodau.

YNGLŶN Â TPAS CYMRU

Mae TPAS Cymru wedi cefnogi tenantiaid a landlordiaid tai cymdeithasol ledled Cymru gyfan ers dros 35 mlynedd a chyda hanes gryf o ddatblygu ymgysylltu â tenantiaid effeithiol trwy hyfforddiant, prosiectau ymarferol a datblygu polisi. Mae gennym wybodaeth helaeth am dai cymdeithasol gyda ffocws ar faterion o safbwynt tenantiaid ac er budd tenantiaid. Rydym hefyd yn gweithio fwyfwy i alluogi llais tenantiaid yn y sector rhentu preifat.

Yn lleol rydym yn datblygu arfer gorau ar lefel landlord, grŵp tenantiaid a phrosiectau trwy gyngor ymarferol, cefnogaeth, hyfforddiant ac ymgynghori. Ar lefel y Llywodraeth, rydym yn cyfrannu at newid polisi trwy ddylanwadu a sicrhau bod profiad ac anghenion byw tenantiaid yn cael eu clywed. Darganfyddwch fwy yn www.tpas.cymru

PWRPAS Y SWYDD

Fel ein Swyddog Ymgysylltu a Pholisi, byddwch yn gweithio fel rhan o dîm ddeinamig i arwain y gwaith o gyflwyno prosiectau cyffrous, sesiynau hyfforddi, gwaith ymgynghori, digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb a chymorth aelodaeth. Mae gan y rôl hefyd gyfrifoldeb am gydlynu ein gwaith polisi, rhannu ein gwaith polisi yn allanol a chydlynu ein gweithgaredd Pwls Tenantiaid.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr ar ddatblygu polisi, dylanwadu ac ymgychu ar draws ystod o faterion tai a thenantiaid.

Byddwch yn sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu, aelodaeth a pholisi yn cael ei gynllunio, ei reoli a'i chyflawni'n effeithiol ac yn broffesiynol.

Byddwch hefyd yn hyderus mewn cyfathrebu ag ystod o gynulleidfaoedd a chynrychioli'r sefydliad yn allanol mewn digwyddiadau a chyfarfodydd sector, gyda'r gallu i gyfrannu'n ddylanwadol at drafodaethau ac, pan fo angen, gweithredu fel llefarydd mewn digwyddiadau neu mewn cyfweiliadau â'r cyfryngau.

Bydd y gwaith yn amrywiol ac yn cynnwys y canlynol:

CYNLLUNIO A CHYFLWYNO DIGWYDDIADAU

Arwain ar ddatblygu a chyflwyno digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb ar gyfer TPAS Cymru, gan gynnwys:

- Dylunio a chyflwyno cynnwys rhaglenni a sesiynau.
- Datblygu gweminarau newydd ar themâu cyfoes
- Arwain hwyluso grwpiau ffocws ar-lein, digwyddiadau a chysiau hyfforddi
- Nodi a sicrhau siaradwyr gwadd a lleoliadau
- Hyrwyddo a marchnata digwyddiadau gan gynnwys ysgrifennu deunydd hyrwyddo

HYFFORDDIANT: DATBLYGU A CHYFLWYNO

- Datblygu a chyflwyno sesiynau hyfforddiant, dysgu a datblygu newydd – gan gynnwys gweithdai ar-lein
- Diweddarau a darparu sesiynau hyfforddiant, dysgu a datblygu presennol
- Datblygu deunyddiau marchnata cysylltiedig i hyrwyddo ein cynnig hyfforddiant, dysgu a datblygu

RHEOLI A CHEFNOGAETH PERTHYNAS AELODAU A SECTOR

- Datblygu a meithrin cysylltiadau cadarnhaol â'n haelod-sefydliad ledled Cymru fel eu bod yn gwbl ymwybodol o'r gwerth y bydd aelodaeth TPAS Cymru
- Datblygu a meithrin cysylltiadau cadarnhaol â sefydliadau a rhanddeiliaid allanol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, noddwyr a chyllidwyr
- Cyfrannu at amcanion tîm gyda chynyddu aelodaeth a nawdd
- Ymateb i aelod-sefydliadau, cais am wybodaeth, cyngor a chymorth
- Ymateb i gais tenantiaid am wybodaeth, cyngor a chymorth gan gynnwys sefydlu a chryfhau cyfleoedd ymgysylltu dan arweiniad tenantiaid

DATBLYGU A CHYDLYNU POLISI

- Cydlynu ein gwaith polisi, gan gynnwys rhannu ein gwaith polisi yn allanol, rhannu gwybodaeth am bolisi ar draws y tîm.
- Datblygu Pwls Tenantiaid a chydlynu gweithgarwch Pwls Tenant ar draws y Tîm.
- Arwain gweithgareddau partneriaeth gyda sefydliadau allanol a rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfarfodydd ac allbynnau ar y cyd sy'n cefnogi cyflawni polisi neu ymgyrchoedd.

- Cynnal a chynyddu cefnogaeth rhanddeiliaid, gan sicrhau bod negeseuon polisi yn gyson, yn gynhwysol ac yn grymuso. Gan gynnwys rhoi tystiolaeth mewn cyfarfodydd allanol fel Pwyllgorau'r Senedd.
- Datblygu a chydlynu datblygiad papurau polisi, briffiau, canllawiau ac adnoddau arfer da cysylltiedig, a dylanwadu ar randdeiliaid i'w mabwysiadu.
- Cydweithio ar draws y tîm i ymgorffori profiad byw mewn datblygu polisi.

CYFLAWNI'R PROSIECT

- Arwain ar gynllunio a chyflwyno amrywiol brosiectau ymgysylltu ac ymgynghori – gan gynnwys adolygiadau ac asesiadau o arferion ymgysylltu â sefydliadau
- Nodi prosiectau i helpu tenantiaid a landlordiaid i ddatblygu strategaethau/polisiau ar gyfer datblygu cyfranogiad tenantiaid
- Ysgrifennu a gwerthuso adroddiadau diwedd prosiect
- Ymgymryd ag ymchwil a chasglu gwybodaeth gyda'n haelodau trwy arolygon ar-lein, galwadau ffôn neu fideo sy'n ymwneud a chynhyrchu canfyddiadau ymchwil
- Gweithio gyda staff a phartneriaid i gydlynu'r gwaith o gyflawni prosiectau yn llwyddiannus

DATBLYGU BUSNES

- Cyfrannu at gynnal amcanestyniad treigl o weithgareddau cynhyrchu incwm a monitro a rheoli cyflawni targedau incwm a chyflawni
- Cynnal ymchwil amserol i ddatblygiadau newydd ym meysydd ymgysylltu â thenantiaid/cymunedol a thai
- Ysgrifennu cynigion ar gyfer prosiectau neu gyfleoedd ariannu
- Ymchwilio a datblygu offer, templedi a thechnegau ymgysylltu newydd
- Datblygu a meithrin cysylltiadau cadarnhaol â noddwyr, a chyllidwyr.

CYFATHREBU A MARCHNATA

- Cydweithio'n agos â chydweithwyr wrth gynllunio a chyflawni cynlluniau cyfathrebu integredig, gan sicrhau bod negeseuon allanol yn adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol ac yn atseinio gyda chynulleidfaoedd targed.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol ac yn rhagweithiol i hyrwyddo prosiectau a chyfleoedd cyfredol i'n haelodau a'r sector
- Ysgrifennu cynnwys, cynhyrchu erthyglau, cyfrannu at gyhoeddiadau
- Cefnogi neu arwain i ddrafftio a chyhoeddi datganiadau i'r wasg, datganiadau i'r cyfryngau, a chyfathrebiadau eraill i hyrwyddo mentrau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd sefydliadol.
- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau'r wasg a'r cyfryngau, gan adeiladu a chynnal perthynas gref â newyddiadurwyr, golygyddion ac allfeydd cyfryngau.
- Cefnogi neu arwain i drefnu cyfweiliadau â'r cyfryngau, darparu nodiadau briffio a negeseuon allweddol, a lle bo'n briodol, cynrychioli'r sefydliad mewn cyfweiliadau â'r cyfryngau.

ARALL

- Ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd fel aelod o dîm bach sydd â chylch gwaith cenedlaethol

Byddai'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd wedi'i drefnu'n dda sy'n hoffi rôl amrywiol ac ysgogol, ac sy'n hoffi cymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol ddisgyblaethau megis datblygu a chyflwyno hyfforddiant, Hwyluso, archwilio arloesedd mewn ymarfer ymgysylltu, a rheoli prosiectau a gwaith polisi.

Sgiliau allweddol:

- Hyder mewn siarad cyhoeddus a chyfathrebu ag ystod o gynulleidfaoedd.
- Hyder a gallu i gynrychioli'r sefydliad mewn cyfarfodydd a fforymau allanol, gan gyfrannu'n gadarnhaol ac yn adeiladol at drafodaethau.
- Parodrwydd i weithredu fel llefarydd ar ran y sefydliad pan fo angen, gan gynnwys mewn digwyddiadau ac mewn cyfweiliadau â'r cyfryngau
- Hyderus wrth ddatblygu a chyflwyno digwyddiadau sy'n wynebu'r cyhoedd - ar-lein ac yn bersonol
- Gwybodaeth am ystod o ddulliau a modelau Ymgysylltu a sut y gellir eu cymhwyso
- Trefnus iawn gyda sgiliau cynllunio ac ymchwil prosiect a'r gallu i weithio'n annibynnol
- Y gallu i gydlynu gwaith polisi ar draws y Tîm
- Profiad neu frwdfrydedd i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant
- Y gallu i ddatblygu a meithrin cysylltiadau cadarnhaol ag aelodau a sefydliadau rhanddeiliaid allanol
- Profiad o gyfrannu at ddatblygu polisi a dylanwadu ar waith.
- Hyderus gyda siarad â phobl, ar y ffôn, yn bersonol ac mewn lleoliadau cyfarfodydd ar-lein
- Gallu a brwdfrydedd i ryngweithio'n effeithiol ac yn gwrtais gydag ystod eang o bobl
- Y gallu i ennill lefel dda o ddealltwriaeth yn gyflym mewn gwahanol feysydd polisi.
- Sgiliau digidol da – hyderus i ddefnyddio atebion digidol fel Zoom, MS Teams, ac offer arolwg ar-lein
- Hyderus a rhagweithiol yn y defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith sy'n cael ei wneud ac i farchnata cyfleoedd newydd
- Sgiliau ysgrifennu diddorol sy'n adlewyrchu ein brand a'n haddasrwydd ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol
- Sgiliau llythrennedd TG da gyda phecynnau Microsoft
- Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Sgiliau neu brofiad ychwanegol gwerthfawr defnyddiol

(Ni fyddem yn disgwyl i ymgeiswyr gael pob un o'r rhain, ond os oes gennych rai dywedwch yn eich cais)

- Y gallu i siarad Cymraeg – *nodwch eich lefel rhuglder*
- Dealltwriaeth o amgylcheddau Llywodraeth Cymru a'r Senedd
- Yn gallu ysgrifennu cynigion cyllid a/neu sicrhau nawdd masnachol
- Profiad o weithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig a heb gynrychiolaeth ddigonol
- Diddordeb mewn sut y gall technoleg ac AI gefnogi'r hyn a wnawn
- Yn gallu rhedeg ymgyrch sy'n anelu at ddylanwadu ar ddeddfwriaeth.
- Profiad o reoli sianel ddigidol / datblygu cynnwys cyfryngau cymdeithasol
- Y gallu i yrru a mynediad at gar